# Cynllun Cyflawni
# Mynediad Cefn Gwlad 2022-2023

## Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru wrth i brosiectau ac adnoddau newid.



Mae'r cynllun cyflawni hwn yn nodi'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion ac ymwelwyr Sir Fynwy, ac fe'i darperir i fonitro'r gwelliannau a nodir o fewn **Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad Sir Fynwy**.

Mae'n cael ei fonitro gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy ac rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer prosiectau a sylwadau ar y cynnwys.

**Beth ydyn ni am ei gyflawni?**

Pwrpas y Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad (CGMCG) yw cynyddu'r defnydd a mwynhad o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) a mannau gwyrdd agored yn Sir Fynwy. Dylai'r rhwydwaith o lwybrau fod yn borth i ymwelwyr a thrigolion archwilio treftadaeth, bywyd gwyllt, a thirweddau Sir Fynwy. Mae'r cynllun yn cefnogi gwelliannau sy'n cyfrannu at deithio llesol a lleihau traffig, busnesau gwledig a'r economi, addysg, ymwneud â'r gymuned, iechyd, a lles ac yn bwysicaf oll ansawdd bywyd y bobl yn Sir Fynwy.

Mae gan y CGMCG 6 thema. Mae'r themâu hyn wedi deillio o asesiadau ac ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd i lywio'r CGMCG. Y tair thema gyntaf yw ein prif flaenoriaethau. Mae gan bob un brif amcan a set o gamau a buddion sy'n cael eu manylu yn natganiad gweithredu'r CGMCG.

<table>
<tr>
<td>1. Rhwydwaith a gynhelir yn dda<br>Targedu gwelliannau ar hawliau tramwy i sicrhau'r budd cyhoeddus mwyaf</td>
<td>2. Ffyrdd Iach Egnïol o Fyw:<br>• I wella hygyrchedd y rhwydwaith a'i gwneud hi'n haws i bobl gynnwys cerdded, marchogaeth a beicio yn eu bywydau bob dydd.<br>• Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r rhwydwaith ar gyfer teithiau pwrpasol.</td>
<td>3. Gwybod Beth Sydd Ar Gael<br>Cyflawni Map a Datganiad Diffiniol cyfredol a hygyrch ac i hyrwyddo safleoedd Cefn Gwlad a’r rhwydwaith Hawliau Tramwy’r Cyhoedd (HTC).<br><br>Mynd i’r afael ag anghydraddoldebau</td>
</tr>
<tr>
<td>Amcanion<br>• WM1 Gwell rhwydwaith/safleoedd ar gyfer defnydd hamdden a dyddiol<br>• WM2 Cydymffurfiaeth<br>• WM3 Hyrwyddo defnydd cyfrifol<br>• WM4 Esblygiad y rhwydwaith - cynyddu hygyrchedd y rhwydwaith HTC<br>• WM5 Gwella Seilwaith Gwyrdd<br>• WM6 Teithio diogel</td>
<td>• AHL1 Cynyddu buddion iechyd a lles<br>• AHL2 Teithio Llesol<br>• AHL3 Symud moddol i gerdded a beicio<br>• AHL4 Mynd i'r afael ag amddifadedd ac anfantais</td>
<td>• KWOT1 Cynnal cofnodion a’u gwneud yn fwy hygyrch<br>• KWOT2 Rhoi cyngor ar safleoedd rhwydwaith HTC a chefn gwlad<br>• KWOT3. Trafod gwelliannau<br>• KWOT4. Gwybodaeth a hyder mwy hygyrch/cynyddu gwybodaeth a hyder<br>• KWOT5. Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru, YG a hyrwyddo llwybrau<br>• KWOT 6 Twristiaeth Gynaliadwy<br>• KWOT 7 Gwelliannau hyrwyddo anabledd</td>
</tr>
<tr>
<td>4. Cyfranogiad Cymunedol<br>Annog a galluogi grwpiau gwirfoddol i ymwneud yn weithredol â phrosiectau cefn gwlad, cyfrannu at les, a chreu cymunedau cynaliadwy a gwydn.</td>
<td>5. Cymru lewyrchus<br>Sicrhau'r budd economaidd mwyaf posib o fynediad at gefn gwlad</td>
<td>6. Canolbwyntio ar y Dyfodol<br>Gweithio dros wasanaeth gwydn sy’n canolbwyntio ar y dyfodol, mewn partneriaeth ag eraill, i ddarparu buddion ehangach i drigolion ac ymwelwyr yn Sir Fynwy.</td>
</tr>
<tr>
<td>• CL1 Cyfraniad Gwirfoddolwyr<br>• CL2 Helpu gwirfoddolwyr<br>• CL3 Rhaglenni gwirfoddol newydd i wella iechyd a lles, gwella'r amgylchedd, bioamrywiaeth a chael pobl ifanc i wirfoddoli.</td>
<td>• PW1 Gwneud y mwyaf o fuddion economaidd<br>- gwella cynnyrch a thyfu marchnadoedd newydd</td>
<td>• FF1 Mwy o ymwybyddiaeth o’r CGHT<br>• FF2 Cysylltiadau at strategaethau a chynlluniau eraill, i gyflawni amcanion yn y cynllun, Gwaith partneriaeth<br>• FF4 Effaith Amgylcheddol a Mesurau lliniaru<br>• FF5 Darparu Adnoddau<br>• FF6 Gwell gwasanaeth cwsmeriaid<br>• FF7 Newidiadau deddfwriaethol a Rheoli Gweithredol</td>
</tr>
</table>

| 1. Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Safleoedd Cefn Gwlad a Gynhelir yn Dda: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LlC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LlAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | | | | | |
| **AMCANION: - WM1 Gwell rhwydwaith/safleoedd ar gyfer defnydd hamdden a dyddiol, Cydymffurfiaeth, Hyrwyddo defnydd cyfrifol, Cynyddu hygyrchedd rhwydwaith** | | | | | |
| Prosiectau | Rhif Cyfeirnod CGMCG: | Pwy | Pryd | Adnoddau | Beth rydyn ni wedi'i wneud? **(gweler hefyd cylchlythyron MonLife)**<br>**Ch1 1af Ebrill – 30ain Mehefin**<br>**Ch2 1af Gorffennaf – 30ain Medi 2022**<br>**C3 1af Hydref – 31ain Rhagfyr 2022**<br>**Ch4 1af Ionawr 2023 – 31ain Mawrth 2023** |
| • | | | | | |
| **A. Prosiect Cysylltiadau Cymunedol**<br>1. Darparu deunyddiau ar gyfer grwpiau gwirfoddol cymunedol lleol i wella mannau HTC a gwyrdd, yn enwedig arwyddion/clirio a helpu i hyrwyddo cyfleoedd mynediad<br>2. Datblygu a darparu arweiniad i Gynghorau Cymuned o ran cyfleoedd i gynorthwyo gyda chynnal a chadw HT<br>Datblygu deunyddiau hyfforddi fel fideos i gynorthwyo tirfeddianwyr a grwpiau gwirfoddol cymunedol i ddeall cyfrifoldebau a'u galluogi i fynd ati i ymgysylltu â chynnal a hyrwyddo eu | WM1, 1.3, 1.6, 1.7<br>WM2 2.0<br>WM3 3.1, 3.4<br>7.2, 12.0, 14.2, 14.3, 18.1, 18.2, 18.3, 26.1 | Swyddog Cysylltiadau Cymunedol / Swyddogion CAMO / Swyddog Gorfodi | Yn parhau o fis Medi 2022 | 2022/23<br>£16,000<br>2023-25<br>£15,000 Grant CME | Ch1 Cyfweliadau ar gyfer swyddog. Wedi gwneud cais am Grant Gwella Mynediad LlC.<br>Ch2 Prosiect wedi'i gynnig i Lywodraeth Cymru a'i osod gerbron Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy Gorffennaf 2022. Cadarnhawyd y grant ddiwedd Gorffennaf 2022. Swyddog wedi dechrau 1af Awst. Cynhaliwyd cyfarfod grŵp gwirfoddolwyr fis Hydref.<br>Ch3 Deunyddiau wedi'u harchebu i grwpiau gwirfoddol eu gosod y flwyddyn nesaf. Taflen ddrafft y Cyngor Cymuned/Tref wedi'i pharatoi. Fideos sy'n ymdrin â sawl pwnc yn cael eu paratoi. 2 grŵp cymunedol newydd yn derbyn hyfforddiant. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| rhwydwaith<br>4. I adolygu llwybrau gofal a llwybrau iechyd, ystyried meysydd blaenoriaeth ar gyfer llwybrau cylchol newydd a datblygu deunydd hyrwyddo<br>3. I gynhyrchu o leiaf fideos o 2 lwybr neu safleoedd cefn gwlad y flwyddyn i ddangos yr hyn y gall defnyddwyr ei ddisgwyl o'r arwynebeddau, graddiannau ac ati. | | | | | |
| **B. Cynyddu hygyrchedd y rhwydwaith HTC a lleihau'r nifer o broblemau'n ymwneud â chamfeydd** | WM4, 4.0 a 4.1 | Swyddog Gorfodi / Swyddog CAMO / tirfeddianwyr | yn parhau | Cais Grant Gwella Mynediad LlC wedi'i wneud ar gyfer 2022-24 £20,000 | Ch1 Cais wedi'i wneud am arian i brynu giatiau mochyn metel i gymryd lle camfeydd wedi torri, lle mae'r tirfeddiannwr yn fodlon cydweithio. Cyllid grant dros dro ar waith ar gyfer 2023-24<br><br>Trwy weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Bridges, fe wnaethom ehangu rhwystrau gosod yn Llan-ffwyst fel bod mynedfa Llan-ffwyst yn addas i feiciau ricsio eu defnyddio. Gwaith tebyg wedi'i gynllunio ar gyfer Cil-y-coed.<br><br>Ch2 Trafodaethau a chyllid wedi'u nodi drwy deithio llesol ar gyfer gwelliannau ar lwybrau teithio llesol. Ceisir adnoddau i nodi gwaith.<br><br>Ch3 Newidiodd trefn arolygu Pontydd i nodi gwelliannau i'r bont er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **c. Atgyweirio ac amnewid Pontydd**<br>• Prynu 5 pont y flwyddyn, gan gynnwys eu gosod, o dan Grant CME LlC.<br>• (gweler hefyd cynnal a chadw LlCCO)<br>• Atgyweiriadau ac amnewidiadau parhaus gan y Tîm Mynediad Cefn Gwlad drwy gydol y flwyddyn. | WM1. | Mynediad Cefn Gwlad | Parhaus | Grant Gwella Mynediad LlC £20,000 yn 2022/23 £30,000 yn 2023-25<br><br>Cyfalaf CSF | Ch1 Caniatâd terfynol i osod 7 pont yn aros i amodau'r ddaear/cnydau fod yn iawn cyn eu gosod.<br>Gofynnir am awdurdodiadau i gael gwared ar Bont Troddi ar Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa.<br>Ch2 7 Pontydd wedi'u gosod |
| **ch. Atgyweiriadau llifogydd**<br>Prosiectau a nodwyd yn dilyn llifogydd gwanwyn 2020. | WM1 1.4, 1.8 | Llywodraeth Cymru, Priffyrdd a Mynediad Cefn Gwlad | | | Ch1 Cafodd cais ei wneud i LlC am werth £170,000 o waith atgyweirio sy'n weddill o lifogydd 2020<br>C2 Dim cadarnhad wedi'i dderbyn o ran y gyllideb |
| **Parc Drybridge, Trefynwy**. Arwynebu 100m o lwybr troed, arwyddion a gwelliannau i'r bont. Gwneud y llwybr yn fwy hygyrch i bawb, drwy gydol y flwyddyn. | WM1 | Swyddog Rheoli Mynediad Cefn Gwlad | Ch3 Hydref 2022 | Grant Gwella Mynediad LlC | Ch1 Nawr yn aros am gymeradwyaeth Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd cyn dechrau gwaith ar y safle.<br>Ch3 Tachwedd - cymeradwyo Trwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd a chaffael, y gwaith i'w gynnal pan fydd contractwr yn gallu ymgymryd â'r gwaith |
| **Parc Gwledig Rogiet** - arwynebu 430m, tynnu 1 giât mochyn a gosod 1 rhwystr K. | Wm1 1.3,1.4, 1.6 1.7, 1.12 AHL1 7.0, 7.1 CL1 18.1, CL3 20.0 | Swyddog Rheoli Mynediad Cefn Gwlad | Ch3 Chwefror 2023 | Grant Gwella Mynediad LlC £30,000 | Ch1 Cafodd cais Grant Mynediad LlC ei wneud<br>Ch2 Cyflwynwyd taflen y prosiect i LlC Gorffennaf 28ain.<br>Ch3 Cynnal prosesau caffael er mwyn dod o hyd i gontractwr<br>I'w gwblhau, os yw'r tywydd yn caniatáu, erbyn mis Chwefror 2023. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Taith Gerdded Dyffryn Gwy Eglwys Llandydiwg**<br>Amnewid ac uwchraddio 2 x pont i'r gogledd o Eglwys Llandydiwg ac atgyfodi llwybr 70m o'r eglwys i'r ysgol | WM1. | Swyddog Maes Mynediad Cefn Gwlad | Ch3 Medi 2022 | Grant Gwella Mynediad LlC £19,450 | Ch1 Cadarnhad nad oes angen Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd bellach Ch2 Pontydd wedi'u gosod<br><br>PROSIECT WEDI'I GWBLHAU |
| **Llwybrau Diogel i'r Ysgol y Drenewydd Gelli-farch** | WM1.7, 1.8, WM6.1, AHL 7.7, 7.8, 8.0 8.3, | Swyddog Maes HTC | Tachwedd 2022 | GGM LlC £9128 | Derbyniwyd y grant diwedd Gorffennaf a dechreuwyd y broses gaffael. |
| **Cynnal Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa**<br>• Cynnal a chadw cyffredinol<br>• Arwyddion | WM1 1.10 | Mynediad Cefn Gwlad, CNC, LlC | Yn parhau, ond Ch4 Mawrth 2022 ar gyfer y grant | Grant £5,024 75% wedi'i ariannu gan LlC a weinyddir gan CNC | Ch1 Dyfarnwyd y grant ar 27 Gorffennaf. Contract torri cyntaf ar y gweill<br>Ch2 Mynychwyd y grŵp cyswllt cenedlaethol. Ail gontract torri ar y gweill. Atgyweirio giât a chynnal a chadw cyffredinol ar fynd |
| **Rhaglen Gwaith Cynnal Llwybr Arfordir Cymru: -**<br>• cynnal a chadw a chlirio cyffredinol | WM1 1.10,<br><br>WM3 4.6 | Mynediad Cefn Gwlad, CNC, LlC, tirfeddianwyr, Cadw | Yn parhau, ond Ch4 i gwblhau grant | Grant Llwybr Arfordir Cymru £11,965 75% o gymorth grant. Y gweddill yn cael ei ariannu gan CSF | Cynnal a chadw cyffredinol ar fynd drwy'r flwyddyn. Ch1 Cyfarfod rhanbarthol Cafodd cais am grant ei wneud. Fe wnaeth y Prif Weinidog ymweld â Chas-gwent.<br>Derbyniwyd mynegbost a gosodwyd panel Dehongli.<br>Ch2 Panel Dehongli Newydd wedi'i osod yng Nghas-gwent. Gwybodaeth a chelf ar gyfer blwch sain wedi'i ddylunio.<br>Derbyniwyd mynegbost arbennig<br>Ch3 Gwaith celf wedi'i gwblhau a gosodwyd y dodrefn pen-blwydd 10 oed, cwblhawyd y gwaith ym mis Tachwedd. Disgwylir bocs sain a digwyddiad ym mis Chwefror 2023 i gwblhau'r prosiect. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent**<br><br>**Coridorau Gwyrdd Gwent**<br>Nodi cysylltiadau coll i gael mynediad at rwydwaith yn rhanbarthol ac yn lleol, datblygu rhaglen hyfforddi ceidwaid a rhoi prosiectau ar waith yn y rhanbarth.. | WM6 6.1<br>WM3 4.2<br>WM5 5.0, 5.1<br>WM4 4.0<br>AHL1 7.0<br>AHL17.1, 7.2, 7.3, 7.6<br>WM6 6.1<br>7.7, 7.9 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn arwain, SG a Mynediad Cefn Gwlad CSF, Cyngor Sir Casnewydd, CBS Blaenau Gwent, CBS Caerffili, CNC, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Fforymau Mynediad Lleol a Phartneriaid eraill | 19 Mai 2021 tan 2023 | I'w gadarnhau | Ceidwad dan hyfforddiant yn gweithio gyda Wardeiniaid Maes. Drafftio gofynion FfMLl, gwirio gwaith wedi'i gwblhau a nodi prosiectau ar gyfer gwelliannau 2022-23.<br>Cynhaliwyd Cyfarfod Rhanbarthol i ystyried briff i ymgynghorwyr sy'n cynhyrchu cynllun mynediad, a'r briff nawr allan i dendr. Hefyd dechreuodd ystyried lle gallai'r 5 ALl gydweithio gyda'i gilydd. Gwelliannau yng Ngwent a ger Taith Gerdded Dyffryn Wysg yn cael eu costio. Ceidwad dan hyfforddiant yn mynychu'r coleg ddeuddydd yr wythnos. Canllaw Dodrefn Mynediad i'w ddiweddaru a'i ddefnyddio ar draws Awdurdodau Gwent. Cyflogwyd ymgynghorydd i wneud Astudiaeth Mynediad Gwent. |
| **Llwybr Troed Hafren** - mesurau i atal neu leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefnogi defnydd diogel cyfrifol gan denantiaid a'r cyhoedd | WM3 3.2, 3.4, 3.5, 5.2 | Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Swyddog Gorfodi a Swyddog Map Diffiniol | yn parhau | Adnoddau presennol | Achos parhaus: - Amnewidiwyd yr hysbysiadau cau Arweiniodd hysbysiad camarweiniol ar y safle at gwynion. Hysbyswyd y meddiannydd. Hyfforddwyd cynghorwyr newydd, ond symudwyd adroddiad tystiolaeth o fis Medi 2022 i fis Ionawr, oherwydd angladd y Frenhines a chanslo cyfarfodydd. |
| Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd \| Dyffryn Gwy AHNE | WM4 4.3, 4.4<br>WM6 6.2, 6.3 | Priffyrdd, Heddlu, CNC, Mynediad Cefn Gwlad, SG, | yn parhau | Yn ceisio cyllid ac adnabod costau | Chwilio am Swyddog AHNE newydd. Nodwyd prosiect newydd o'r enw Strategaeth Mynediad Hamdden AHNE. Strategaeth mewn drafft |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mentrau seiliedig ar natur a thirwedd ehangach i fynd i'r afael â phroblemau priffyrdd hirdymor, llifogydd a llwybrau mynediad amlbwrpas diogel yn Nyffryn Gwy. | AHL 9.6<br>PW1 21.6<br>FF4 24.4 | Tirfeddianwyr, Grwpiau Defnyddwyr AHNE Dyffryn Gwy | | | |
| **Gwelliannau Mynediad AHNE Dyffryn Gwy**<br><br>1. Prosiect banc/erydu Llwybr Wyesham Trefynwy<br>2. Gwaith i wella llwybr yn Piercefield ar y cyd â Choed Cadw, CSF a’r tirfeddiannwr. | WM1 1.11 | AHNE Dyffryn Gwy, Mynediad Cefn Gwlad, CAPITA | YN PARHAU | | Mae AHNE Dyffryn Gwy yn ariannu gwaith gwella ar y llwybr caniataol. Cafwyd cytundeb tair blynedd i gael mynediad ar droed ar draws y safle lle mae mynediad mwy diogel eisoes yn bodoli. Y llwybr gwell, ar ôl ei gwblhau, i'w neilltuo fel llwybr Diffiniol newydd. |
| **Cynnal rhwydwaith HTC** | WM1<br>1.2, 1.4, 1.6, 1.7 | Mynediad Cefn Gwlad, tirfeddianwyr, cynghorau cymuned | Parhaus | Cyfalaf £ | Ch1 Rhodiwr Prentis yn gweithio'n rhan amser gyda wardeiniaid maes trwy gyllid GGGP ar gyfer eleni. Llwybr bordiau ym Merthyr Tewdrig wedi'i osod. Probelmau wedi'u datrys: 1088 (63.69%) o gamfeydd, 665 (74.80%) giatiau, 285 (63.49%) arwynebau,<br>2767 (78.74%) clirio, 557 (64%) pontydd, 1806 (49.6%) arwyddion, 730 (95.5%) cnydio, 859 (39%) o rwystrau, 1441 (53%) arall.<br>Mae ôl-groniad o broblemau a adroddwyd drwy e-bost a ffôn wedi'u clirio ac yn y system. Ch2 Dal i fyny gyda rhaglenni grant. Mae nifer y problemau a adroddwyd yn parhau i godi. 53.65% o orfodi a 65.44% o broblemau cynnal a chadw wedi'u datrys. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynnal safleoedd cefn gwlad**<br><br>Prosiectau safle penodol wedi'u cynllunio<br>• Gwella gwaith trochi Pwll ar Ddolydd y Castell<br>• Rheoli coetir Warren Slade<br>• Cynnal strwythur Gweithfeydd Haearn Clydach | WM1 1.12 | Mynediad Cefn Gwlad, Cyfeillion Grwpiau, gwirfoddolwyr, | yn parhau | Cyllid CSF £20,000<br><br>CME LlC £5,000 ar gyfer pwll<br><br>Cynllun gwella Gweithfeydd Haearn Clydach Adran 106 gwerth £53,000<br>£116,620 | Ch1 Chwistrellu efwr enfawr mewn safleoedd Parc Gwledig. Cytundeb Pysgota a Chytundeb Pori/Gwair Gwartheg mewn lle ar gyfer 2022/23. Clirio parhaus ar bob safle. Cais am welliannau o ran pysgota/maes parcio’r Graig Ddu yn grant CME 2023/24. Cais hefyd ar gyfer grant CME i ddarparu llwybr mynediad caled a 25m ar gyfer gwelliannau trochi pyllau yn Nolydd y Castell.<br>Disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn Ch3.<br><br>Dangoswyd safleoedd i'r swyddog llesiant ac erbyn hyn yn defnyddio Goetre, y Graig Ddu a Rogiet ar gyfer lles cymunedol.<br><br>Dyfarnwyd y faner werdd i Ddolydd y Castell<br><br>Asesiad Risg Coed wedi'i Feintoli - Archwiliadau Coed ar gyfer Clefyd yr Ynn wedi'i gwblhau a gwaith angenrheidiol yn cael sylw. |
| **Lleihau problemau cnydio** | WM1 1.1 | Cyngor Sir Fynwy, tirfeddianwyr, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr/Undeb Amaethwyr Cymru | PARHAUS (TYMHOROL) | Cyllideb Mynediad Cefn Gwlad presennol | Ch1 730 (95.5%) o broblemau cnydio wedi'u datrys<br>Ch2 95.19% o broblemau cnydio wedi'u datrys. |
| **Hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a chod cefn gwlad newydd** | WM3 3.0 | Cyngor Sir Fynwy | yn parhau | | Ch1 Presenoldeb mewn cyfarfod cenedlaethol i drafod estyniad cod ar gyfer beiciau trydan.<br>Ch2 Ymgyrch ymwybyddiaeth baw cŵn yn Llan-ffwyst a Dolydd y Castell |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad blynyddol o gytundeb dirprwyo a chynllun gwaith PCBB** | WM1 1.9 | CSF, PCBB | yn parhau | Cyllidebau presennol | Gweler y cynllun cyflawni ar gyfer PCBB ar gyfer gwelliannau sy'n digwydd yn y Parc Cenedlaethol |
| **Diweddaru'r Canllaw Dylunio Mynediad Cefn Gwlad** | WM4.5 | Swyddog Mynediad Rhanbarthol Grid Gwyrdd Gwent | Mawrth 2023 | GGGP £3,000 | C1 Gorffennaf – mae 5 awdurdod lleol cyfagos am ddefnyddio ein canllaw dylunio. Cyfraniadau i'w gwneud ganddynt i ddiweddaru canllaw a chynnwys safonau BSC newydd a llwybrau bordiau. Rhan o Grant Mynediad PGGG |

# Ffyrdd Iach Egnïol o Fyw:

Amcanion:-

Sicrhau buddion iechyd a lles; Teithio Llesol; Newid moddol i gerdded a beicio; Mynd i'r afael ag amddifadedd ac anfantais

LlC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LlAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

| Prosiectau<br><br>trosolwg o gynlluniau teithio llesol | Rhif Cyfeirnod CGMCG: | Pwy | Pryd | Adnoddau | Beth sydd wedi cael ei wneud?<br>**(gweler hefyd y cylchlythyron)**<br>**Ch1 1af Ebrill – 30ain Mehefin**<br>**Ch2 1af Gorffennaf – 30ain Medi**<br>**Ch3 1af Hydref – 31ain Rhagfyr**<br>**Ch4 1af Ionawr 2022 - 31ain Mawrth 2022** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Teithio Llesol Dolydd y Castell | AHL1 7.0 ac 8.4, 7.6, 7.8, AHL 8.0, 8.2 AHL3 9.0, 9.4 | Mynediad Cefn Gwlad, Teithio Llesol, CGC, Priffyrdd | 2021 i 2025 | £123,750 | Yn parhau - cyfarfodydd ymgynghori a gweithio gydag ymgynghorwyr ail-ddyluniadau/gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer cyflwyno cynllunio ac AT. Yn ystyried rhaglen o weithiau dros ddolydd ar hyn o bryd (wrth fynd). Cytunwyd lleoliad system giât dan brawf. Manylion y dyluniad terfynol yn cael eu trafod i osgoi cerbydau rhag mynd i'r safle. Rhaglen ymgynghori a gosod yn cael eu dylunio, i fod ar waith Chwefror 2023. Profion ymdreiddiad yn cael eu cynnal ym mis Rhagfyr 2022 i lywio gwybodaeth am arwynebau a chynllunio. |
| Teithio Llesol - Taith gerdded Dyffryn Gwy i Eglwys Llandydiwg | AHL1 7.0 AHL3 9.2, 9.4 AHL4 10.1 | Amey, Mynediad Cefn Gwlad, Teithio Llesol MonLife | | | Ni dderbyniwyd cyllid yn 2022 at barhad y prosiect<br><br>Fodd bynnag mae cownter yn cael ei osod Hydref 2022 |
| Grid Gwyrdd Gwent Gwelliannau i lwybr mynediad rhanbarthol partneriaeth yn Wentwood, taith gerdded Dyffryn Wysg a Llandegfedd | AHL3 8.1, 8.2, 9.4 AHL4 10.0, 10.1. | Swyddog Mynediad Rhanbarthol | Mawrth 2023 | £44,000 | Ch1 Llwybrau ar gyfer gwelliannau'n cael eu penderfynu. |
| Lôn Williamsfield Uwchraddio llwybr troed i lwybr beicio/llwybr ceffylau | AHL1 7.0, 7.6, 7.8, AHL 8.0, 8.2 AHL3 9.0, 9.4 | Priffyrdd Mynediad Cefn Gwlad | | | Ch1 Ceisio cynorthwyo gyda gorchmynion cyfreithiol Ch2 Aros am ymateb gan y tirfeddianwr<br>Ch4 Rhagfyr – Dal i aros am ateb o'r tirfeddiannwr/asiant |
| Teithio Llesol y Glasfforddd – Rheilffordd Cil-y-coed | AHL1 7.0 | Seilwaith Gwyrdd | 2021/23 | £2 | Llwybrau a gwelliannau'n cael eu darparu gan y Tîm Seilwaith Gwyrdd |

| **<u>Gwybod Beth Sydd Ar Gael</u>**: Amcanion Cynnal a gwneud cofnodion mwy hygyrch; Darparu cyngor ar rwydwaith HTC a safleoedd cefn gwlad;Negodi Gwelliannau; Gwybodaeth fwy hygyrch/cynyddu gwybodaeth a hyder; Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a llwybrau a hyrwyddir; twristiaeth gynaliadwy; Gwelliannau hyrwyddo anabledd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LlC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LlAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog LlCCO = Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa | | | | | |
| Prosiectau | Rhif Cyfeirnod CGMCG: | Pwy | Pryd | Adnoddau | Beth sydd wedi cael ei wneud? **(gweler hefyd y cylchlythyron)** **Ch1 1af Ebrill – 30ain Mehefin** **Ch2 1af Gorffennaf – 30ain Medi** **Ch3 1af Hydref – 31ain Rhagfyr** **Ch4 1af Ionawr 2022 - 31ain Mawrth 2022** |
| Prosesu ceisiadau i greu, symud, neu gau llwybrau cyhoeddus. | KWOT2 | Mynediad Cefn Gwlad MonLife, Gwasanaethau Cyfreithiol, LlC | yn parhau | Adnoddau presennol ac ailgodi tâl o'r ymgeisydd | 9 yn parhau a 12 Gorchymyn Deddf Priffyrdd a gorchmynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref mewn gwahanol gamau o'u cwblhau. |
| Adolygu rhaglen Blaenoriaethu Addasu | KWOT 11.3 | Mynediad Cefn Gwlad MonLife | Gwanwyn/Haf 2023 | | |
| Prosesu a gwneud hysbysiadau cau dros dro yn ôl y gofyn | KWOT2 12.4 P | Mynediad Cefn Gwlad MonLife, Gwasanaethau Cyfreithiol, LlC | yn parhau | Adnoddau presennol ac ailgodi tâl o'r ymgeisydd | Yn parhau, gweler y Gofrestr Cau Llwybrau Dros Dro. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Parhau i brosesu hawliadau yn ôl y blaenoriaethu, a cheisio adnoddau ychwanegol i glirio'r ôl-groniad o geisiadau. | KWOT 11.3 | Mynediad Cefn Gwlad MonLife, Gwasanaethau Cyfreithiol, Priffyrdd, yr Arolygiaeth Gynllunio | yn parhau | Adnoddau presennol | yn parhau<br>Ch1 Gorchymyn Great Panta wedi mynd i adolygiad barnwrol (yn y Llys Chwefror 2023). Datganiadau o achos wedi'u paratoi.<br>C2 Cafodd aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio'u hyfforddi. Adroddiad tystiolaethol y Morglawdd yng Nghil-y-coed wedi'i gwblhau ynghyd ag adroddiad y pwyllgor, a hysbyswyd ymgyngoreion o ddyddiad y pwyllgor ar 15fed Medi 2022. Oherwydd Galar Cenedlaethol y dyddiad hwn nawr Ionawr 2023. |
| Gweithio gyda CNC i adolygu ffyrdd eraill o ddelio gyda hawliadau ar dir CNC a cheisio adnoddau i lunio cynlluniau rheoli. | KWOT3 13.1 | CNC, MonLife | YN PARHAU | PRESENNOL | Dim cynnydd oherwydd Covid, a chynnydd yn y galw ar amser staff mewn mannau eraill |
| Darparu cyngor ac arweiniad i dirfeddianwyr, defnyddwyr | KWOT2 | | yn parhau | | Parhau ar sail dyddiol |
| Cysylltu gyda chynllunio ar gynllun datblygu lleol a cheisiadau cynllunio | KWOT12.1 | | YN PARHAU | | 123 ymateb i safleoedd ymgeisiol enwebedig wedi'u cwblhau, |
| Chwiliadau pridiant tir | KWOT12.2 | | yn parhau | | Cyfartaledd o 68 chwiliad y mis |
| Cynyddu gwybodaeth a hyder | KWOT14.0 | | yn parhau | | Gweler prosiect cysylltiadau cymunedol |
| Gwell hyrwyddo teithiau cerdded iechyd, wedi'u dosbarthu i feddygfeydd ac ati. | KWOT7 17.2 | | Mawrth 2024 | | Gweler Prosiect Mynediad Rhanbarthol GGGP |

| Cyfranogiad Cymunedol:<br>Amcanion: Ymwneud â Gwirfoddolwyr; Helpu gwirfoddolwyr; Rhaglenni gwirfoddol newydd i wella iechyd a lles, gwella'r amgylchedd/bioamrywiaeth a chael pobl ifanc i wirfoddoli | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiectau | Rhif Cyfeirnod CGMCG: | Pwy | Pryd | Adnoddau | Beth sydd wedi cael ei wneud? **(gweler hefyd y cylchlythyron)**<br>**Ch1 1af Ebrill – 30ain Mehefin**<br>**Ch2 1af Gorffennaf – 30ain Medi**<br>**Ch3 1af Hydref – 31ain Rhagfyr**<br>**Ch4 1af Ionawr 2022 - 31ain Mawrth 2022** |
| **Gweler hefyd Prosiect Cysylltiadau Cymunedol** o ran cynnal a chadw<br>- Cefnogi grwpiau presennol a datblygu grwpiau cymunedol newydd i wella a chynnal eu HTC/safleoedd lleol.<br>- Darparu hyfforddiant<br>- Datblygu deunydd hyrwyddo â ffocws gyda gwirfoddolwyr<br>- -gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i ddelio â gordyfiant blynyddol a nodi arian.<br>- Datblygu a hyrwyddo canllawiau i gynghorau cymuned a thref i nodi eu pwerau, eu cyfrifoldebau ac i ddangos sut i nodi anghenion a chyfleoedd lleol sydd ar gael. | CL1 18.0, 18.1, 19.3, 20.2. 20.4 | | | | Ch1 Hyfforddiant arweinwyr teithiau cerdded a hyfforddiant iechyd a diogelwch wedi'u darparu. Canllaw ar gyfer mewnbynnu problemau gofal llwybrau wedi'i gyhoeddi fel drafft. 7 taith gerdded dywys wedi'u mynychu gan 64 o bobl. Roedd un o'r teithiau cerdded yn arbennig ar gyfer gofalwyr.<br>Ch2 Hyfforddiant arweinwyr cerdded iechyd wedi'i gyflwyno. Roedd dwy daith gerdded ystlumod ar Ddolydd y Castell, gydag 20 o bobl yn mynychu, gan gynnwys 3 o blant. 4 digwyddiad cerdded am ddim wedi'u mynychu gan 22 o bobl. 2 wedi'i ganslo oherwydd y tywydd.<br>6 mwy o deithiau cerdded wedi'u cynllunio tan ddiwedd Rhagfyr.<br>Ymgymerwyd â gwaith grŵp ym mis Gorffennaf ac Awst gan Grŵp Amgylchedd CC Llanbadog Fawr. Ymgymerwyd â gwaith grŵp rheolaidd gan Grŵp Pennarth. Helpodd Cerddwyr Pont-y-pŵl i ddatblygu grŵp gwaith ac maen nhw wedi gwneud rhywfaint o glirio.  Ymgymerodd Cyfeillion Dolydd y Castell â pharcio ar gyfer yr Ŵyl Fwyd, gwaith cynnal a chadw coed a gwaith mewn coedlan a safle. Mae Cyfeillion Parc Gwledig Rogiet wedi cynnal gwaith |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | casglu sbwriel a gwirio'r safle. Mae pencampwyr Sbwriel y Graig Ddu nid yn unig yn gwneud casgliadau sbwriel rheolaidd ond yn monitro sbwriel y gellir ei ailgylchu.<br>47.75 awr o fapio cyfrifiadurol gan wirfoddolwyr, 144 awr gan Grŵp Cerdded Gofal Llwybrau, 4 awr ymwneud gan dîm GDAS.<br>Ch3 Digwyddiad Grwpiau Llwybrau Hydref 2022. Grŵp newydd Llangybi, 19 o wirfoddolwyr i dderbyn hyfforddiant. Gwaith clirio gyda grŵp newydd ym Mrynbuga, gwaith Pont gyda gwirfoddolwyr y Grysmwnt. Diweddariad ar gyfer Grŵp FfMLl, 15 gwirfoddolwyr yn mynychu digwyddiad Nadolig MonLife. |
| Ymchwilio i gyfleoedd i **annog pobl iau i wirfoddoli** | CI3 20.3 | Rheolwyr MonLife | | GGM £6,000 2023-25 | Parhaus<br>Medi – Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chydlynydd gwirfoddolwyr MonLife a rheolwyr eraill MonLife i drafod cyfleoedd posibl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweler Prosiect Taith Gerdded y Tri Chastell** o dan "Cymru lewyrchus" isod. | | Tîm Mynediad Cefn Gwlad | 2023-2025 | Grant Gwella Mynediad LlC | |
| **Datblygiad Taith Gylchol Ddaeareg**, Cefn Ila, Llanbadog Fawr (Elfen CSF yw gwella mynediad i bawb drwy amnewid camfeydd gyda giatiau) | WM1 1.6, 1.2, 1.3 AHL1 7.6, 7.7, KWOT4 14.3 KWOT6 16.3 CL1 18.1 CL3 20.2, PW1 21.7 | Ramblers Cymru, Cyngor Cymuned Llanbadog Fawr, Mynediad Cefn Gwlad CSF, Tirfeddianwyr | I'w gadarnhau - wedi'u heffeithio gan Covid Amcangyfrifir bydd y giatiau newydd mewn lle hydref 2021 | Cyllid gan Ramblers Cymru a Chyllid Grant Gwella Mynediad | Ch1 Hyfforddi staff Ramblers Cymru a gosod giatiau yng Nghefn Ila yn lle camfeydd. |
| **Magwyr** – wedi'i gwblhau o ran **arwyddion a hyrwyddo 8 llwybr cylchol** o gwmpas Magwyr a Gwndy | WM1 1.6, CI1 18.1 | Seilwaith Gwyrdd, Lefelau Byw | Hydref 2022 | Cyllid Adran 106 o £4,608 | Gweler cynllun cyflawni Tîm SG |
| **UWCHRADDIO SYSTEM RHEOLI MYNEDIAD I GEFN GWLAD -** Gwella Technoleg Gwybodaeth a rhyngwyneb mapio i fod yn fwy defnyddiol ar gyfer prosiectau gwirfoddol | **CI2 19.0** | **Exegesis, Mynediad Cefn Gwlad, Gwasanaeth Adnoddau a Rennir CSF** | **2020 - 2021** | Presennol | Cwblhawyd 2021. Mae nawr angen hyfforddiant ar gyfer Gwirfoddolwyr i ddefnyddio swyddogaethau newydd sydd ar gael. Fideo'n cael ei gyrchu, a gobeithio'i gynhyrchu erbyn Nadolig 2022. |

| **Cymru Lewyrchus:** Amcanion: I wneud y mwyaf o fuddion economaidd, gwella cynnyrch a thyfu marchnadoedd newydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LlC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LlAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | | | | | |
| Prosiectau | Rhif Cyfeirnod CGMCG: | Pwy | Pryd | Adnoddau | Beth sydd wedi cael ei wneud? **(gweler hefyd y cylchlythyron)** |
| **Taith Gerdded y Tri Chastell**<br>• 2022-24 Arolwg o lwybrau cylchol gyda gwirfoddolwyr ac arwyddion<br>• 2023-24 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd ar lwybr rhanbarthol drwy sefydlu Grŵp Cyfeillion a gweithio mewn partneriaeth yn hyrwyddo a chynnal llwybrau.**,**<br>• 2023-25 Deunydd hyrwyddo a digwyddiadau wedi'u targedu i hyrwyddo'r llwybr | 4.2, 4.6, 5.1, 7.2, 13.4, 14.1, 14.3, 15.2, 16.0, 16.3, 18.4,20,4, 21.12, 21.7 | CAMO, Swyddog Cysylltiadau Cymunedol, Cydlynydd Gwirfoddolwyr, grwpiau gwirfoddol lleol h.y. Grŵp y Grysmwnt, CADW, Cynghorau Cymuned, Ramblers Cymru | 2023 - 25 | Grant CME wedi'i ariannu am ddwy flynedd | Cais ariannol wedi'i wneud ar gyfer Grant Gwella Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith yn 2023-25. Arolygon fydd yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr/staff yng ngwanwyn 2023. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru Cas-gwent ar gyfer y dathliadau pen-blwydd 10 oed.**<br><br>- Dylunio a Gosod mainc, panel dehongli, celf, mynegbost a cherdd newydd<br>- Digwyddiad dadorchuddio a hyrwyddo | PW1 21.0, 21.1.20.3. 21.5 | Sir y Fflint, CNC, CSF | Medi 2022 | Cyllidebau presennol. Prynu drwy arian LlC yn 2021/22 | Mainc yn cael ei dadorchuddio gan Brif Weinidog Cymru a'r gerdd ym mis Mehefin. Panel Dehongli newydd wedi'i osod 18fed Gorffennaf 2022 Hydref gosod gweddill y gwaith celf, mynegbyst ayb. Digwyddiad hyrwyddo i ddadorchuddio blwch sain ac ati Chwefror 2023 |
| **Cynnal Cyfarfodydd Rheoli Llwybr yr Arfordir Rhanbarthol** | FW1 21.3 | CNC, LLC, CADW, MonLife | yn parhau | presennol | Ch1 Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol ar Teams. 15fed Gorffennaf gweminar rhagarweiniol Ein Llwybrau Byw. Deialog barhaus a diweddariadau gyda Swyddog Llwybr yr Arfordir Rhanbarthol. Mynychwyd cyfarfod Adolygiad LlAC ar 4ydd Mawrth. Mynychwyd cyfarfod Grantiau YC/LlAC ar gyfer ALlau ar Fawrth 17eg. Mynychwyd cyfarfodydd pen-blwydd 10 oed LlAC amrywiol.<br><br>Ystyried yr adroddiad am Ddyfodol Llwybr Arfordir Cymru.<br><br>Cyfarfod Partneriaeth LlAC Rhanbarthol Ionawr |

| **Canolbwyntio ar y Dyfodol:**<br>Amcanion:- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r CCMCG, Cysylltiadau â strategaethau a chynlluniau eraill; I gyflawni amcanion yn y cynllun; gweithio mewn partneriaeth; Effaith Amgylcheddol a mesurau lliniaru; Darparu adnoddau; Gwell gwasanaeth cwsmeriaid; Newidiadau deddfwriaethol a rheoli gweithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LlC = Llywodraeth Cymru CNC = Cyfoeth Naturiol Cymru CSF = Cyngor Sir Fynwy LlAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | | | | | |
| Prosiectau | Rhif Cyfeirnod CGMCG: | Pwy | Pryd | Adnoddau | Beth sydd wedi cael ei wneud?<br>**(gweler hefyd y cylchlythyron)**<br>**Ch1 1af Ebrill – 30ain Mehefin**<br>**Ch2 1af Gorffennaf – 30ain Medi**<br>**Ch3 1af Hydref – 31ain Rhagfyr**<br>**Ch4 1af Ionawr 2022 - 31ain Mawrth 2022** |
| 23.0 Cryfhau partneriaeth sy'n gweithio gyda Rhanddeiliaid allweddol i wneud gwell synnwyr o'r rhwydwaith a darparu amgylcheddau deniadol diogel a gynhelir yn dda.<br><br>- Sefydlu is-grŵp FfMLl i ystyried prosiectau gwella | | | yn parhau | | Cyfarfod cenedlaethol gyda CNC a LlC amddyfodol LlAC. Wardeiniaid safle MonLife yn cynorthwyo gydag archwiliadau ar safleoedd mynediad cefn gwlad. Gweithio gyda Cadw ar welliannau i gael mynediad i safle Eglwys Runston a'r safle Saethyddiaeth. Cyfarfodydd gydag AHNE Dyffryn Gwy o ran gwelliannau mynediad. Rhan o bartneriaeth Cerdded Dyffryn Gwy yn edrych ar wefan a gwelliannau newydd ar gyfer pen-blwydd yn 50 oed yn 2025. Cysylltu ag Iechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gael cymorth gydag achosion gorfodaeth arbenigol. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol/PCCO o ran Pen-y-fâl Cyfarfodydd gyda PCBB o ran achosion amrywiol.<br>Cyswllt parhaus gyda chontractwyr, priffyrdd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill o ran rhaglenni teithio llesol.<br>Rhannwyd Mynediad Cefn Gwlad CSF gydag awdurdodau Gwent a Chanllaw Bioamrywiaeth HT Cyngor Sir Fynwy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Presenoldeb yng nghyfarfodydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (yn parhau)<br><br>Presenoldeb mewn cyfarfod Partneriaeth Llwybr Clawdd Offa o ran y Bartneriaeth Llwybrau Cenedlaethol<br>Cyfarfod gyda Ramblers Cymru o ran gwirfoddoli a grantiau.<br><br>Cyfarfodydd amrywiol gydag ALlau Gwent ar gyfer PGGG.<br><br>Cyfarfod is-grŵp Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei sefydlu i ystyried gwelliannau (aros i'r swyddog fod mewn swydd). |
| Darparu Adnoddau – Sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ariannu'r CCMCG drwy sicrhau adnoddau ychwanegol o ffynonellau mewnol ac allanol, sy'n helpu i gyflawni'r amcanion o fewn y cynllun hwn. | FF5 25.0 | | | | Cafodd cais wneud ar gyfer arian grant llifogydd 2020 i'w dwyn ymlaen at eleni.<br><br>Cafwyd Grant Gwella Mynediad am dair blynedd. Cafwyd grantiau cynnal a chadw LlCCO, Llwybr Arfordir Cymru.<br><br>Bu ceisiadau Teithio Llesol ar gyfer Cil-y-coed a Dolydd y Castell yn llwyddiannus. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Nodwyd cyllid CADW posibl ar gyfer gwella llwybrau yn 2022 yng Nghlydach a Llangwm.<br><br>Canfod elfennau mynediad a £40,000 gan grant Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent ac edrych ar etifeddiaeth bosibl.<br><br>Rhagfyr – Cais cyfalaf wedi'i wneud yn fewnol. |
| Ceisio cynnal a gwella darparu gwasanaeth mynediad cefn gwlad drwy godi tâl am weithgaredd lle bo hynny'n bosib | FF5 25.3 | | Adolygiad parhaus. | | Cytuno ar daliadau maes parcio Parc Gwledig Rogiet |
| Adolygu gofynion cownter a lleoliadau a sefydlu dull o gynhyrchu adroddiadau | | | | | AT Swyddog yn prynu gallu adrodd y byddwn yn ei ddefnyddio i gynhyrchu adroddiadau ystyrlon.<br>Hyfforddiant a gosod 6 cownter a brynwyd.<br>Aeth defnydd o lwybr Chainbridge i fyny o 4074 yn 2021 i 6753.<br>Adroddiad blynyddol i'w baratoi a'i gyhoeddi |
| Adolygu polisïau gweithredol bryd i'w gilydd mewn ymateb i newid deddfwriaethol. | FF27.2 | | | | Adolygiad parhaus o effeithiau'r Covid ar weithrediadau a deddfwriaeth<br>Cadw golwg parhaus ar gynigion mynediad deddfwriaethol, Bil Amaethyddol newydd a deddfwriaeth berthnasol arall.<br>Mynychu cyfarfodydd Swyddog Hawliau Tramwy Cymru/e-byst a chyfarfodydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru |

| Dangosydd | Gwirioneddol 2018/19 | Gwirioneddol 2019/20 | Gwirioneddol 2020/21 | Gwirioneddol 2021/22 | Ch1 2022/23 Gwirioneddol | Ch2 2022/23 Gwirioneddol | Ch3 2022/23 Gwirioneddol | Gwirioneddol 2022/23 C4 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oriau Gwirfoddolwyr Mynediad Cefn Gwlad (gwirfoddolwyr uniongyrchol)** | 3089.5 +1326 wedi'u cofnodi fel yn anunion-gyrchol (1) | 3,294 Union-gyrchol 2265.5 Anunion-gyrchol 1028.5 | 1126 Anunion-gyrchol 340.5 | Union-gyrchol 2,106.5 Anunion-gyrchol 819 | 463.5 Anunion-gyrchol 392 | 417.75 Anunion-gyrchol 131 | | | Cyfanswm oriau anuniongyrchol yn 2021/22 oedd 819 awr a chyfanswm yr oriau gwirfoddol oedd 2106.5 awr. Mae hyn yn dal i fod yn llai na’r cyfnod cyn Covid. |
| **Grwpiau gwirfoddoli anuniongyrchol Mynediad Cefn Gwlad a gefnogwyd** | 13 | 11 | 6 | 11 | 10 | 11 | | | Grwpiau gwirfoddolwyr a chymunedol newydd ar y rhestr i ddechrau ac yn aros am hyfforddiant ac ati pan benodir swyddog Cysylltiadau Cymunedol newydd. |
| **Datrys materion gorfodaeth HT yn y flwyddyn** | 1,572 | 1,648 | 1,750 | 1,797 | 1,835 | 1,838 | | | Cynnydd bach mewn datrys problemau fesul blwyddyn ond wedi'i negyddu gan y cynnydd parhaus yn ôl-groniad y problemau a adroddwyd. |
| **Problemau gorfodaeth HT heb eu datrys** | 1,265 | 1,339 | 1,365 | 1,485 | 1,588 | 1,588 | | | Ôl-groniad o broblemau wedi cynyddu. |

| Dangosydd | Gwirioneddol 2018/19 | Gwirioneddol 2019/20 | Gwirioneddol 2020/21 | Gwirioneddol 2021/22 | Ch1 2022/23 Gwirioneddol | Ch2 2022/23 Gwirioneddol | Ch3 2022/23 Gwirioneddol | Gwirioneddol 2022/23 C4 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran o faterion gorfodaeth HT wedi'u datrys (cronnus)** | 55.41% | 55.17% | 56.18% | 54.75% | 53.61% | 53.65% | | | |
| **Problemau cynnal a chadw HT a datryswyd yn y flwyddyn** | 6,198 | 6,594 | 6,971 | 7,160 | 7,489 | 7,517 | | | Cynnydd bach mewn datrys problemau ond wedi'i negyddu gan y cynnydd parhaus yn y problemau a adroddwyd. |
| **Problemau cynnal a chadw HT heb eu datrys** | CSF = Cyngor Sir Fynwy LlAC = Llwybr Arfordir Cymru PCBB = Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog LlCCO = Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa | 3,370 | 3,592 | 3,745 | 3,957 | 3,969 | | | Mae niferoedd y problemau a adroddwyd yn parhau i godi gyda mwy o bobl yn cerdded. |
| **Canran o faterion cynnal a chadw HT wedi'u datrys (cronnus)** | 65.94% | 66.18% | 65.99% | 65.66% | 65.35% | 65.44% | | | Anodd newid y ffigwr yma heb adnoddau ychwanegol |
| **Statws "Gwobr y Faner Werdd" wedi'i ddyfarnu/wedi'i gynnal** | 3 | 3 | 3 | 3 | | 3 | | | Asesiad blynyddol o safleoedd dethol trwy geisiadau blynyddol (3 ar hyn o bryd) |